

RICE (TEULU), Newton (Llandeilo Fawr)

Yr oedd aelodau y teulu a gyfenwid yn ddiweddarach yn Rice yn disgyn o [Gruffudd ap Nicholas](#), a chyraeddasant fan uchaf eu cyfoeth a'u dylanwad ym mherson [Syr Rhys ap Thomas](#). Dienyddiwyd ei wyr ef, Syr RHYS AP GRUFFYDD, am fradwriaeth yn 1531. Priodasai Syr Rhys ap Gruffydd, yn 1524, Lady Catherine Howard, merch ail dduc Norfolk. Eiddil oedd y dystiolaeth i'w euogrwydd, y gwir drosedd, y mae'n debygol, oedd ei Babyddiaeth a'i wrthwynebiad i Anne Boleyn. Pan gwmpodd ef aeth ei eiddo mawr - dywedid fod tiroedd yn dwyn iddo £10,000 y flwyddyn a bod ei eiddo personol yn £30,000 - i ddwylo'r Goron. Bu'r tair cenhedlaeth a'i dilynodd yn ceisio ailadeiladu ffortiwn y teulu; llwyddasant i adennill rhai o'r tiroedd a fforffedwyd, eithr gwerthwyd y rhan helaethaf ohonynt gan y naill deyrn Tuduraidd ar ôl y llall.

Cafodd GRIFFITH RICE (c. 1530 - 1584), mab Syr Rhys ap Gruffydd, gan y frenhines Mari, yn 1554-5, rai o diroedd coll ei dad yn Sir Benfro, eithr colodd hwy drachefn, yn 1557, pan gafwyd ef yn euog o lofruddio Mathew Walshe yn swydd Durham. Cafodd bardwn pan ddaeth Elisabeth i'r orsedd ac, yn 1560, cafodd y tiroedd a fforffedwyd yn ôl, ynghyd a thiroedd eraill yn siroedd Penfro a Chaerfyrddin - yn cynnwys maenor Newton - y cwbl yn werth £105 10s. 4c. y flwyddyn. Yn 1563 a 1580 cafodd brydlesoedd ar diroedd eraill a fuasai'n perthyn i'w dad. Ceir ef yn fynych ymhlith yr ustusiaid heddwch detholedig yn Sir Gaerfyrddin y rhoddid iddynt ddyletswyddau arbennig gan Gyngor y Goror. Bu'n faer Caerfyrddin yn 1571 ac yn siryf Sir Gaerfyrddin yn 1567-83. Yn 1581 gorfodwyd ef a [Syr John Perrot](#) gan y Cyfrin Gyngor i ymrwymo yn swm o £1,000 yr un i gadw'r heddwch.

Yr oedd Syr WALTER RICE (c. 1560 - 1611) mab Griffith Rice, yn aelod seneddol dros sir Gaerfyrddin, 1584-5, Caerfyrddin, 1601 a 1604-11, ac yn siryf Sir Gaerfyrddin, 1586. Cafodd ef, a elwid 'the Queen's Servant,' dir oedd ychwanegol yn siroedd Caerfyrddin a Phenfro yn 1594 (y rhenti yn werth £47 19s. 9 1/2c. y flwyddyn), ac y mae'n bosibl i'w briodas ag Elizabeth, merch [Syr Edward Mansell](#) Margam, ddyfod â chymorth dylanwadol ei frawd-yng-nghyfraith, y llyngesydd [Syr Robert Mansell](#), iddo. Aeth [Lewys Dwnn](#) ato ynglyn ag ach y teulu a'i gael i lofnodi'r tabl achau, ac fe'i disgrifiodd ef fel 'one of James I pensioners'. Fe'i gwnaethpwyd yn farchog yn 1603.

Yn y genhedlaeth nesaf parhaodd HENRY RICE (c. 1590 - c. 1651) i adennill tiroedd a gollasid. Yn 1625 a 1629 bu'n deisyf ar Siarl I i roddi iddo gynifer o stadau ei hendaidd ag a oedd yn aros yn nwylo'r Goron, gan hawlio i Mari ac Elisabeth addo cyn gymaint i'w dad a'i daid. Ef, yn ddiau, oedd awdur dienw y cofiant i [Rys ap Thomas](#) a'r amddiffyniad i Rys ap Gruffydd a argraffwyd yn y *Cambrian Register*, i a ii (1795 a 1796); yr oeddynt yn rhan o'i ymgyrch i adennill stadau y teulu. Nid oes dystiolaeth iddo ef, na'i fab, EDWARD RICE, chwarae unrhyw ran yn y Rhyfel Cartrefol. Daliai'r ddau diroedd yn Dinefwr a Newton yn 1651. Bu Edward Rice yn siryf Sir Gaerfyrddin yn 1663. Ni wyddys i sicrwydd ym mha flwyddyn y bu Edward farw. Aeth y stadau i'w frawd, WALTER RICE, a enwyd yn ddirprwy-raglaw yn sir Frycheiniog yn 1674.

Yr oedd WALTER RICE wedi marw erbyn 1681 pan ddeisyfodd cyrnol Theophilus Oglethorpe (*D.N.B.*) ar y Goron i roddi iddo weddill y tiroedd a roddasid yn 1560 i Griffith Rice a'i etifeddion gwryw. Y deiliad ar y pryd oedd GRIFFITH RICE (1667 - 1729), mab Walter, ac yr oedd y tiroedd o dan sylw yn werth £300 y flwyddyn. Bu Griffith Rice fyw, fodd bynnag, i gael etifeddion; yr oedd yn siryf Sir Gaerfyrddin yn 1694 ac yn aelod seneddol y sir 1701 hyd 1710. Methodd ei fab, EDWARD RICE, ag ennill sedd seneddol y sir yn 1722.

Chwaraeodd GEORGE RICE (1724 - 1779), mab Edward Rice, ran bur flaenllaw ym mywyd gwleidyddol ei gyfnod. Yr oedd yn aelod o dwr o Chwigiad Sir Gaerfyrddin, o dan arweiniad [Griffith Philipps, Cwmgwili](#) (gweler [Philipps, Cwmgwili](#)), a fu'n ymdrechu'n ffyrnig yn erbyn Toriaid de-orllewin Cymru dan arweiniad [Syr John Philipps](#), Castell Pictwn, i geisio ennill y dylanwad pennaf ym mwrdeisdref Caerfyrddin rhwng 1738 a 1764. Bu'n aelod seneddol y sir o 1754 hyd 1779. Yn ystod y cyfnod hir pan oedd gan y Chwigiad fonopoli mewn awdurdod gwleidyddol, ac a ddaeth i ben pan fu Siôr II farw yn 1760, yr oedd yn ddilynnydd y Pelhamiaid. Dewiswyd ef yn arglwydd-raglaw Sir Gaerfyrddin yn 1755, a daeth yn gyrnol milisia 'r sir yn 1759; yr oedd yn un o 'political managers' y dug Newcastle yng Nghymru yn 1755, a derbyniodd £173 'for Radnorshire' allan o gronfa gwasanaeth cudd y gwr hwnnw. Pan ddaeth monopoli'r Chwigiad i ben trosglwyddodd ei wrogaeth i arweinyddion newydd. Dewiswyd ef yn arglwydd-gomisiynwr y Bwrdd Masnach a Threfedigaethau gan Newcastle yn 1761 - y cyflog yn £1,000 y flwyddyn - a daliodd y swydd o dan weinyddiaethau olynol hyd fis Ebrill 1770 pan ddewiswyd ef gan North yn drysorydd ystafell y brenin. Bu farw yn y swydd honno yn 1779. Priodasai, yn 1756, Cecil, unig blentyn [William, yr iarll Talbot 1af](#), Lord Steward of the Royal Household, a grewyd, yn 1780, yn [iarll TALBOT](#) a [barwn DYNEVOR](#), gyda hawl gan ei ferch i'w ddilyn. Daeth eu mab hwy, GEORGE TALBOT RICE (1765 - 1852), 3ydd barwn Dynevor, yn aelod seneddol (Toriaidd) dros sir Gaerfyrddin, 1790-3; bu ei fab yntau, GEORGE RICE TREVOR (1795 - 1869), a etifeddodd stadau teulu Trevor yn Glynde, Sussex, yn aelod seneddol (Toriaidd) dros sir Gaerfyrddin, 1820-31 a 1832-52. Yr oedd stadau'r teulu yn 1883 yn cynnwys 7,208 o erwau yn Sir Gaerfyrddin, 3,299 yn Sir Forgannwg, a 231 yn Lloegr - y cwbl yn werth £12,562 y flwyddyn.

Awdur

Yr Athro Glyn Roberts, (1904 - 1962)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18530734](https://www.wikidata.org/wiki/Q18530734)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

